

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Naomi Stocks
Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6222
Amser: 09.30	SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Papurau i'w nodi

2.1 Gohebiaeth gan Macmillan a Tenovus mewn perthynas â chynllun y bathodyn glas

(Tudalennau 1 – 4)

Papur 1

2.2 Gohebiaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r sesiwn dystiolaeth ar gynllun y bathodyn glas

(Tudalennau 5 – 8)

Papur 4

2.3 Gohebiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch y sesiwn dystiolaeth ar gysgu ar y stryd ar 21 Mawrth 2019

(Tudalennau 9 – 11)

Papur 3

2.4 Gohebiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch yr adroddiad ar y cyd, 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol'

(Tudalennau 12 – 18)

Papur 2

2.5 Tystiolaeth ategol gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ar hawliau pleidleisio i garcharorion

(Tudalennau 19 – 32)



Papurau 5a a 5b

- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

- 4 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau)**
(9:30 – 9:45) (Tudalennau 33 – 34)

- 5 Trafod y flaenraglen waith**
(9:45 – 10:30) (Tudalennau 35 – 52)

Eitem 2.1

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

5 Mehefin 2019 – clawr y papurau i'w nodi

Rhif y papur	Mater	Oddi wrth	Gweithredu
ELGC(5)-17-19 Papur 1	Ymchwiliad i Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu	Macmillan a Tenovus	Gohebiaeth ynghylch cynllun y Bathodyn Glas.
ELGC(5)-17-19 Papur 2	Ymchwiliad i Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu	Llywodraeth Cymru	Gohebiaeth ynghylch y sesiwn dystiolaeth ar gynllun y Bathodyn Glas.
ELGC(5)-17-19 Papur 3	Cysgu ar y stryd	Llywodraeth Cymru	Gohebiaeth ynghylch y sesiwn dystiolaeth ar gysgu ar y stryd ar 21 Mawrth 2019.
ELGC(5)-17-19 Papur 4	Cyllideb ddrafft 2019/20	Llywodraeth Cymru	Gohebiaeth ynghylch yr adroddiad ar y cyd, 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol'
ELGC(5)-17-19 Papur 5a	Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion	Canolfan Llywodraethiant Cymru	Tystiolaeth ategol ar hawliau pleidleisio i garcharorion.
ELGC(5)-17-19 Papur 5b	Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion	Canolfan Llywodraethiant Cymru	Poblogaeth carchardai yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, Rhagfyr 2018.



Mr John Griffiths AM
Chair
Equality, Local Government and Communities Committee
National Assembly for Wales
Cardiff CF99 1NA

Dear Mr Griffiths

Re: Blue Badge Scheme Inquiry

We would like to extend our thanks to the Committee and yourself for welcoming us to give evidence to the inquiry into the blue badge scheme in Wales. We listened carefully to the Minister's evidence to the Committee and felt it would be appropriate to respond to some of the issues raised.

Appeals Process

During the Minister's evidence to the Committee¹, he touched upon the issue of an appeals process for blue badge scheme applicants.

"I'd be really interested to see any evidence that would suggest or lead us to conclude that the independent appeals process within any of the local authorities is not operating properly, fairly or independently. I would be really interested to see... because I would consider whether we need an additional form of appeals process to be established. And it's also worth noting, I didn't say earlier, that in certain circumstances individuals can appeal to Welsh Government as well."

We warmly welcome the Minister's support for an appeals process in principle, however from our extensive experience, there is not one currently in practice. The Minister's statement does not fully reflect the current state of play and it presupposes that people who fail in their application for a blue badge are able to appeal to their local government, and that the Welsh Government has a final appeal role. We would welcome such a process, however, sadly this is not the current situation.

The Welsh Government's public information concerning the scheme, "Who is Eligible for a Blue Badge"² outlines in clear terms that:

"The local authority's decision on eligibility is final. There is no appeals process. However, if additional evidence is available then an applicant may request that the local authority reconsiders their application."

¹ From the 01:23:57 mark; we have attempted to capture it verbatim, above, but defer to the official committee transcript once that becomes available.

² <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-09/who-is-eligible-for-a-blue-badge.pdf>

The Welsh Government has no power to intervene in the decision-making process if an application is rejected.” (pg 8)

We feel this is something that will require further clarification as the Minister’s comments did not align with the current process that is in place. We would support positive steps to introduce some form of independent appeal process.

We would welcome a move by the Committee to liaise with the Minister and ask for a clarification on the issues surrounding any appeals process for blue badge scheme applicants, and whether his comments can be interpreted as support for a Wales blue badge scheme appeals process in practice?

Access to the Blue Badge for people with cancer

Tenovus Cancer Care and Macmillan Cancer Support both stressed the need for consistency of application for the current guidance in a way that promotes the effective assessment process for cancer patients. Macmillan also suggested a “deep dive” audit into local authority areas to identify good practice that informs adjustments to the guidance for a more consistent pan-Wales approach. Additional evidence, provided by our service teams, covering areas of good practice has been submitted by our organisations.


There are already rules that allow people affected by cancer to access both permanent and temporary badges dependent on their situation. It is worth noting that people who are considered to have a terminal illness are in most cases provided with a full blue badge.

Tenovus Cancer Care suggested in their evidence to the Committee that, given the complex comorbidities associated with cancer and with its treatment a general eligibility could be considered to all cancer patients upon diagnosis.

People undergoing cancer treatment can face significant mobility and well-being challenges, for example chronic fatigue, a weakened immune system and pain. We know from the Macmillan/ Welsh Government Cancer Patient Experience Survey, only 48% of respondents were offered benefits advice through the course of their treatment³. Individuals receiving benefits advice from a professional advisor from a third sector organisation will examine the need for a blue badge and support the application process. For those not receiving advice it is a concern that, despite being eligible they may not be aware of their entitlement. Both organisation continue to promote our advice services and hope to increase the number of people affected by cancer who receive appropriate information and support.

We trust you find this supplementary information useful and these issues demonstrate the difficulties faced by people who need accurate information concerning a scheme that, if they qualify, will have a significant positive benefit to their well-being.

Yours sincerely,



Greg Pycroft
Policy and Public Affairs Officer
Macmillan Cancer Support



Martin Fidler Jones
Policy Officer
Tenovus Cancer Care

³ Picker, Macmillan Cancer Support, (2017) Wales Cancer Patient Experience Survey.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

SeneddCommunities@cynulliad.cymru

23 Mai 2019

Annwyl John

Hoffwn ddiolch i chi am y cyfle i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i gynllun y bathodyn glas. Nodir isod y wybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani yn eich llythyr dyddiedig 8 Mai.

Rhagor o wybodaeth ynghylch nifer yr achosion o gamddefnyddio cynllun y bathodyn glas yng Nghymru, gan gynnwys manylion data'r Awdurdod Atal Twyll Cenedlaethol a oedd yn dangos bod 20 y cant o fathodynau glas yn cael eu camddefnyddio ar draws y DU.

Y Fenter Twyll Genedlaethol – Lloegr

Ymarfer paru data gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n anelu at helpu i atal a chanfod achosion o dwyll. Mae tua 1,200 o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, yn cymryd rhan ac yn darparu data ar gyfer y Fenter. Ceir copi o Adroddiad y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2018 yn –

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/737146/National-Fraud-Initiative-Report-2018.pdf

Mae adroddiad y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2018 a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU yn ymwneud â Lloegr ac mae'n nodi bod 31,223 o fathodynau glas wedi cael eu diddymu neu eu tynnu'n ôl o ganlyniad i'r Fenter. Nodwyd bod hyn gwerth £18m.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 2.38 miliwn o fathodynau glas yn Lloegr. Cyhoeddwyd 887,000 ohonynt rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae twyllwyr yn camfanteisio ar gynllun y Bathodyn Glas drwy ffugio bathodynau a dwyn bathodynau o geir. Caiff bathodynau hefyd eu camddefnyddio pan fydd y bathodynau hynny yn parhau i gael eu defnyddio, neu'n cael eu hadnewyddu gan rywun, ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw. Yn Lloegr, erlyniwyd cyfanswm o 1,131 o unigolion yn 2016/17. Roedd y rhan fwyaf o'r erlyniadau (98%) yn Lloegr wedi'u targedu at unigolion nad oeddent yn meddu ar fathodyn ond a oedd yn defnyddio bathodyn unigolyn arall.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynyddodd nifer y bathodynau glas a ddiddymwyd yn sylweddol i 31,223 o 23,063 yn 2014/15. Felly, cynyddodd hefyd werth amcangyfrifedig y bathodynau glas a ddiddymwyd rhwng cyfnodau adrodd o £13.2 miliwn i £18 miliwn, sef cynnydd o 36%.

Yr Awdurdod Atal Twyll Cenedlaethol

Mae'r Awdurdod Atal Twyll Cenedlaethol yn amcangyfrif bod 20 y cant o fathodynau yn cael eu camddefnyddio. Ledled y DU, mae'r Awdurdod yn amcangyfrif bod tua hanner miliwn o Fathodynau Glas wedi cael eu camddefnyddio, gan arwain at golledion o £46 miliwn y flwyddyn.

BBC

Dangosodd tystiolaeth o waith ymchwil a gynhaliwyd gan y BBC y codwyd 14,000 o ddirwyon ar fodurwyr yn 2017/18 am gamddefnyddio manau parcio i bobl anabl ledled Cymru. Roedd yr hysbysiadau cosb am barcio ar y stryd ac mewn baeau penodedig mewn meysydd parcio. Bu'r ffigurau hyn yn gymharol gyson dros gyfnod o bedair blynedd.

Manylion ynghylch ymgysylltiad awdurdodau lleol â gweithdai hyfforddi a phecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiadau bathodyn glas.

Yn 2017, cynhaliwyd gweithdai arfer da er mwyn helpu Awdurdodau Lleol â'u rôl. Cefnogwyd y gweithdai asesu gan staff o'r Gwasanaeth Cyngori Annibynnol, ac roedd 17 o'r 22 o awdurdodau lleol yn bresennol. Ni fynychodd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Ceredigion na Bro Morgannwg. Yn 2018, cynigiwyd gweithdy gloywi i Awdurdodau Lleol gyda'r Gwasanaeth Cyngori Annibynnol. Fodd bynnag, dim ond un Awdurdod Lleol a fynegodd ddiddordeb ond canslodd yr awdurdod lleol hwnnw'n ddiweddarach. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru weithdai gorfodi yn 2017 er mwyn hyrwyddo'r arfer da a geir mewn rhannau eraill o'r DU. Arweiniwyd y gweithdai gan swyddogion gorfodi o Portsmouth ac roedd 15 o'r 22 o awdurdodau lleol yn bresennol. Ni fynychodd awdurdodau lleol Ceredigion, Merthyr Tudful, Casnewydd, Sir Benfro, Abertawe, Torfaen na Bro Morgannwg.

Manylion faint o achosion o gamddefnyddio y gellir eu hatal drwy ddileu bathodynau annilys.

Y Fenter Twyll Genedlaethol – Cymru

Lluniodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad sydd ar gael yn –

<https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/national-fraud-initiative-cymraeg.pdf>

Mae'r negeseuon allweddol mewn perthynas â Bathodynau Glas fel a ganlyn:

- Mae Adolygiad o waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ddiddymu 1,690 o fathodynau glas a 28,584 o gardiau teithio rhatach.
- Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru bathodynau glas a chardiau teithio rhatach yn erbyn cofnodion unigolion marw. Bwriad y gwaith paru yw canfod bathodynau a chardiau sydd o bosibl yn dal mewn cylchrediad ar ôl marwolaeth y perchennog

cofrestredig. Caiff cofnodion Bathodynau Glas hefyd eu paru i ganfod achosion pan gyflwynwyd bathodynau i ddeiliaid bathodyn glas gan fwy nag un awdurdod lleol.

- Mae bathodynau glas yn cynnig nifer o gonsesiynau parcio ac yn achubiaeth i bobl â phroblemau symud difrifol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y bathodynau'n cael eu dileu pan fydd y deiliad yn marw. Gall methu â gwneud hynny olygu bod bathodynau yn cael eu defnyddio gan bobl nad oes ganddynt unrhyw hawl.
- Mae'n drosedd arddangos bathodyn glas at ddibenion osgoi taliadau parcio neu i sicrhau lle parcio gwell pan nad y gyrrwr na'r cyd-deithiwr yw perchennog cyfreithlon y bathodyn. Nid yw hyn yn atal twyllwyr rhag targedu'r cynllun, a gall bathodynau glas gael eu gwerthu am symiau sylweddol o arian. Mae'r twyll yn arwain at golled o ran refeniw parcio i'r awdurdod lleol a hefyd yn golygu na fydd lleoedd parcio ar gael i ddeiliaid bathodyn glas dilys.
- Eleni, mae'r gwaith paru wedi arwain at ddiddymu 1,690 o fathodynau glas ledled Cymru, o'i gymharu â 1,044 yn ymarfer blaenorol y Fenter. Ar ôl diddymu'r bathodynau, mae'n bosibl i awdurdodau lleol wirio a yw'r bathodynau a ddiddymwyd yn cael eu harddangos yn dwyllodrus.
- Amcangyfrifir bod achosion o dwyll fesul bathodyn yn costio tua £576.

Gwasanaethau Digidol Bathodynau Glas

Mae Gwasanaethau Digidol Bathodynau Glas (BBDS) yn darparu'r broses ar gyfer gwneud cais ar-lein, yn rheoli'r broses o weithgynhyrchu a dosbarthu bathodynau, yn ogystal â chadw'r gronfa ddata genedlaethol ar gyfer bathodynau. Dechreuodd BBDS reoli'r gwasanaeth ym mis Chwefror eleni ac mae'n datblygu prosesau ar gyfer glanhau'r gronfa ddata er mwyn helpu i atal achosion o dwyll.

A yw'r ddau draean o awdurdodau lleol yr ydych yn dweud eu bod yn defnyddio proses apelio annibynnol wedi defnyddio'r llwybr hwn i bennu canlyniad cais am fathodyn glas neu setlo apeliadau yn erbyn penderfyniadau bathodyn glas.

Ni nododd y ddeddfwriaeth sylfaenol na'r is-ddeddfwriaeth y gofyniad am broses apelio ar sail herio penderfyniadau ar gymhwysedd.

Disgwylir i awdurdodau lleol roi eu system eu hunain ar waith i adolygu achosion lle na roddwyd bathodyn i ymgeisydd a lle y mae'r ymgeisydd hwnnw am herio'r penderfyniad. O'r wybodaeth a gafwyd, gwneir hyn fel arfer ar ffurf adolygiad gan reolwr tîm. Yn ogystal, mae gan bob awdurdod lleol weithdrefnau cwyno.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi gofyn p'un a allant atgyfeirio achosion lle mae'r ymgeisydd yn herio'r penderfyniad at y Gwasanaeth Asesu Annibynnol gan fod Llywodraeth Cymru yn talu am y gwasanaeth hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi gwrthod y ceisiadau hyn. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn defnyddio'r Gwasanaeth Asesu Annibynnol. Ni chadwyd cofnodion ffurfiol o dan yr amgylchiadau hyn.

A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl o ran datrys apeliadau a wnaed gan unigolion y gwrthodwyd eu cais am fathodyn glas, ac os felly, o dan ba amgylchiadau fyddai hyn yn digwydd?

Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r apeliadau cyfyngedig a ganiateir i Lywodraeth Cymru, mewn achosion;

Papur 4 – Llywodraeth Cymru

Paper 4 – Welsh Government

- Rheoliad 8 - y 'Seiliau dros wrthod rhoi bathodyn' lle mae'r awdurdod lleol yn gwrthod rhoi bathodyn am fod yr ymgeisydd wedi camddefnyddio'r cynllun a bod hynny wedi arwain at euogfarn neu
- Rheoliad 9 - 'Dychwelyd bathodyn i'r awdurdod rhoi' am y gofynnwyd i'r unigolyn ddychwelyd ei fathodyn gan ei fod wedi camddefnyddio'r bathodyn hwnnw a bod hynny wedi arwain at euogfarn.

Ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau i Lywodraeth Cymru o dan y naill neu'r llall o'r rheoliadau hyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport



Eich cyf/Your ref: MA/P/JJ/1827/19

22 Mai 2019

Annwyl John

Ymholiad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Cysgu ar y Stryd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Ebrill ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 21 Mawrth, lle rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd. Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i drafod y mater pwysig hwn gyda'r Pwyllgor ac am eich diddordeb o hyd yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn ymrwymedig i atal pob math o ddigartrefedd, gan gynnwys cysgu ar y stryd. Ein nod yw gwneud digartrefedd yn rhywbeth prin a byrdymor nad yw'n digwydd eto. Mae hyn yn cynnwys dileu'r angen i unrhyw un gysgu ar y stryd yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod ac yn cytuno ag ymdeimlad y pwyllgor bod angen gweithredu ar fyrder i ddatrys y mater hwn. Fodd bynnag, os ydym wir am atal pob math o ddigartrefedd, mae angen inni weithredu dull system gyfan a seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Felly, nid wyf yn cytuno â phennu dyddiad targed mympwyol ar gyfer cyflawni'r nod hwn, heb ddata na thystiolaeth glir i ategu targed o'r fath. Dyma pam rydym yn gweithio gydag eraill ledled y DU, megis Centre for Homelessness Impact, i geisio gwella sylfaen y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, er mwyn gwella'r gwaith o lywio ymyriadau gwasanaethau ac er mwyn helpu i gyflawni ein nod yn gyflymach.

Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rwy'n cytuno bod angen gwneud llawer mwy, ond mae'n bwysig cydnabod y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo a'r cynnydd rydym yn ei wneud yn barod. Mae'r ffigurau ar gyfer yr aelwydydd sy'n dweud eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref yn dangos yn glir ein bod yn brwydro yn erbyn y llif, ac un sy'n cynyddu. Gwelwyd cynnydd o tua 12% o ran niferoedd o gymharu â blwyddyn yn ôl. Felly, mae angen inni gydnabod a chanmol awdurdodau lleol am gynnal eu cyfraddau atal, gan gydnabod hefyd yr angen am ddulliau newydd o atal a chefnogi'r rhai nad ydym wedi gallu eu hatal rhag mynd yn ddigartref.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf eisoes wedi nodi fy mwriad i ddiwygio'r Cynllun Gweithredu Cysgu Ar y Stryd i adlewyrchu ffocws y gweithgarwch yn well, a hefyd i egluro terfynau amser a phwy sy'n gyfrifol am y camau gweithredu. Un math o ddigartrefedd yw cysgu ar y stryd, sef y math mwyaf difrifol, ac mae'n hanfodol bod y camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn rhan o weithredu ar sail system gyfan ehangach er mwyn atal digartrefedd. Felly, mae diwygio'r cynllun gweithredu yn rhoi'r cyfle i sicrhau bod camau gweithredu yn rhan o un dull strategol ar sail system gyfan.

Yn ogystal â sicrhau ein bod yn defnyddio ymyriadau effeithiol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gwella ein dealltwriaeth o faint y broblem. Dyma'r union reswm ein bod yn cefnogi astudiaeth ddichonoldeb dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, er mwyn asesu'r potensial o ddefnyddio'r data unigoleddig. Mae'r data hyn, a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan y Wallich drwy'r prosiect SHIN, yn elfennau hanfodol er mwyn deall yr angen yn well. Fel y nodais yn y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i amcanion cyffredinol y prosiect SHIN o wella data amser real er mwyn cefnogi gweithwyr rheng flaen a llywio gwaith llunwyr polisi yn well. Mae hwn yn faes gwaith pwysig ond mae angen inni gydnabod yr heriau sy'n ymddangos wrth weithio gyda gwybodaeth bersonol, sy'n sensitif iawn. Ni ddylid diystyru'r risgiau o fethu â sicrhau bod gofynion cyfreithiol a rhannu data cadarn ar waith.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r prosiect yn ddiweddar er mwyn asesu ei statws presennol a helpu i lywio'r camau nesaf. Roedd y lefel o gefnogaeth i amcanion y prosiect wedi creu argraff dda ar y tîm adolygu ond gwnaed nifer o argymhellion hefyd. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Wallich i gefnogi cynllun peilot cyfyngedig, a fydd yn cael ei werthuso'n annibynnol, er mwyn llywio'r camau nesaf. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hyn yn iawn ac yn rhoi trefniadau cyfreithiol a llywodraethu cywir ar waith ar gyfer y prosiect os ydym am sicrhau y caiff ei gyflwyno'n llwyddiannus ledled y wlad.

Rwyf yn cydnabod bod oedi wedi bod o ran diwygio'r Cod Canllawiau a chyhoeddi rhai canllawiau arfer gorau. Mewn perthynas â'r Cod Canllawiau, mae'n amlwg bod angen diwygio'r Cod er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn adroddiadau ymchwil diweddar a thystiolaeth o'ch Pwyllgor. Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, mae'n anffodus bod hyn wedi cael ei oedi oherwydd yr ansicrwydd o hyd ynghylch materion ymfudo sy'n deillio o Brexit, a chan nad oes dyddiad pendant pryd y bydd hyn yn cael ei ddatrys, byddwn yn bwrw ymlaen i ddiwygio cymaint o'r cod â phosibl. Mae'n hanfodol bod y rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r broses hon a bydd fy swyddogion yn trafod y diwygiadau arfaethedig â nhw dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cod diwygiedig i'w drafod yn ffurfiol yn yr hydref. O ran y canllawiau arfer gorau, mae'r rhain wrthi'n cael eu cyfieithu a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddaf yn ysgrifennu i'r Pwyllgor unwaith y byddant wedi cael eu cyhoeddi.

Ers imi ymddangos gerbron y Pwyllgor, dyfarnwyd y contract am yr adolygiad annibynnol o angen blaenoriaethol i Brifysgol Caerdydd. Fel y bydd y Pwyllgor yn sylweddoli, mae hwn yn ddarn o ymchwil gymhleth sy'n hanfodol er mwyn adeiladu sylfaen dystiolaeth o ran y ffordd mae angen blaenoriaethol yn gweithio ar hyn o bryd a deall yn llawn y goblygiadau o wneud newidiadau posibl iddo. Mae'r ymchwil wedi'i chomisiynu yn unol â phrosesau caffael Llywodraeth Cymru ac mae'r amserlen yn adlewyrchu cymhlethdod y gwaith cysylltiedig.

Un darn o'r system yw'r ddeddfwriaeth wrth gwrs. Elfen hanfodol arall yw cyflenwi tai fforddiadwy, a dyma'r rheswm ein bod yn ymrwymedig i adeiladu digon o dai cymdeithasol yn gyflym. Os ydym am gyrraedd ein nod o wneud digartrefedd yn rhywbeth prin a byrdymor nad yw'n digwydd eto, mae'n rhaid cael atebion tai hirdymor a phriodol. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio'n bennaf ar atal digartrefedd ac ailgartrefu unigolion ac aelwydydd yn gyflym i gartrefi hirdymor a phriodol pan nad oes modd osgoi digartrefedd. Mae angen inni roi'r gorau i atebion tai dros dro a defnyddio atebion mwy cynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am newid i'r

Papur 3 – Llywodraeth Cymru

Paper 3 – Welsh Government

system gyfan, na fydd yn digwydd dros nos, ond rwy'n ymrwymedig i weithio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gyflawni'r newid hwn. Mae Tai yn Gyntaf yn elfen bwysig o ailgartrefu cyflym, ond mae'n rhaid iddo fod yn rhan o ddull gweithredu ehangach os ydym am gyrraedd ein nod.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eich cyfraniad wrth inni fwrw ymlaen â'n agenda ar y cyd i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Yn gywir



Julie James AC

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P-RE-1621-19

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Mai 2019

Annwyl Llŷr

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Adroddiad ar y cyd - Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A sy'n ymateb i'r argymhellion a geir yn adroddiad ar y cyd y pwyllgorau 'Asesu Effaith Penderfyniadau Cyllidebol' (Mawrth 2019).

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb i'r adroddiad ar y cyd gan y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' (Mawrth 2019)

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ar y cyd ar *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol* a gyhoeddwyd. Rydym hefyd yn croesawu'r ddadl adeiladol a gynhaliwyd yn ystod y broses o graffu ar ein cynigion cyllidebol a byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth ac adborth a gyflwynwyd mewn perthynas ag asesiadau o effaith, gan gynnwys gan bwyllgorau polisi unigol.

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad o effaith ein cynlluniau gwariant ar gydraddoldeb fel rhan o Gyllideb 2011-12. Ers hynny rydym wedi mynd ati i adolygu'n barhaus ac adeiladu dull cynyddol soffistigedig o asesu effaith cyllideb Llywodraeth Cymru. O 2015-16 mae hyn wedi datblygu'n broses lle rydym yn paratoi Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb.

At hynny, ond ar wahân iddo, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddatblygu a symleiddio'r ffordd y mae'n asesu ac yn arfarnu effeithiau polisiâu ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

Rydym yn derbyn, neu'n derbyn mewn egwyddor, holl argymhellion yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion mewn perthynas â'r Asesiad Integredig Strategol o'r gyllideb a'r adnodd asesu effaith integredig newydd. Fel y dywedodd Arweinydd y Tŷ ar y pryd yn ei thystiolaeth i'r sesiwn ar y cyd fis Tachwedd diwethaf, yr adnodd asesu effaith integredig yw'r dull a ddefnyddir i asesu effaith polisi penodol. Mae'r ffordd y caiff effaith penderfyniadau gwario eu hasesu (yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb) yn ategu'r asesiadau unigol o effaith polisiâu sy'n cael eu dwyn ynghyd o dan Asesiadau Effaith Integredig ac yn dibynnu arnynt.

Er mwyn helpu ystyriaeth yn y dyfodol, mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o bob un:

- **Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb** Mae'n anelu at gyflawni ein cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau gwario a wneir fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith, sef cydraddoldebau, hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur polisiâu o safbwynt anghenion cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Felly, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi sut mae'r ystyriaethau hyn wedi llywio'r dyraniadau cyllidebol strategol a wneir fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (datblygu cynaliadwy).
- **Adnodd Asesu Effaith Integredig** Cafodd yr adnodd hwn ei lansio ym mis Gorffennaf 2018 a'i ddatblygu i symleiddio asesiadau effaith presennol Llywodraeth Cymru yn un fframwaith integredig a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisiâu a deddfwriaeth. Cafodd ei strwythuro drwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

(fel y'i mynegwyd drwy saith nod llesiant Cymru). Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar gymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. Mae'r adnodd asesu effaith integredig wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses bolisi drwy helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) polisïau o gam cynnar ac wrth iddynt ddatblygu. Mae asesu'r effaith ar bobl a lleoedd a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn allweddol i lunio polisïau da, ac mae'r adnodd yn cefnogi'r ystyriaethau hyn drwy gydol y broses o ddatblygu polisïau.

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y broses asesiad effaith integredig strategol (yn fanylach na'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol), ei diben a'r canlyniadau disgwylidig, yn dilyn ymgysylltu â'r comisiynwyr statudol perthnasol a chael eu cytundeb

Ymateb: Derbyn

Yn yr ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20*, gwnaethom ymrwymo i adeiladu'n barhaus ar welliannau i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol er mwyn ei wneud yn fwy gwerthfawr wrth ystyried effaith penderfyniadau gwario strategol. Byddwn yn myfyrio ymhellach ar y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgorau mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Fel rhan o hyn, byddwn yn gweithio gyda'r comisiynwyr statudol perthnasol er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch diben y broses asesu effaith integredig strategol a'r canlyniadau disgwylidig, wrth ystyried sut y gellir defnyddio ein dull gweithredu yn fwy effeithiol i lywio penderfyniadau gwario a blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

Er mwyn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn cefnogi datblygiadau ehangach, byddwn hefyd yn sicrhau bod y broses ymgysylltu hon yn gyson ag adolygiad 2019 o'r adnodd asesu effaith integredig (gweler yr ymateb i Argymhelliad 3).

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei holl asesiadau effaith unigol mewn man canolog, fel y gall yr asesiad effaith integredig strategol gyfeirio atynt wedyn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gysyniad 'Llywodraeth Agored' fel y dangoswyd gennym wrth gyhoeddi ein *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored*¹. Mae'r ymrwymadau yn amlinellu ein huchelgeisiau i fod yn fwy agored ac ymatebol i ddinasyddion, yn fwy atebol a mynd ati'n fwy cydweithredol o ran y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod yn llawn yr angen i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy barhau i hyrwyddo ymdrechion i fod yn agored ac yn dryloyw.

¹<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymadau-llywodraeth-cymru>

Fel arfer, caiff asesiadau effaith unigol o benderfyniadau pwysig eu cyhoeddi fel rhan o ddogfennaeth y polisi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir eu gweld ochr yn ochr â dogfennau polisi cyhoeddiedig ond ni chânt eu cadw mewn lleoliad canolog ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n chwilio am y wybodaeth weld a deall yr holl ystyriaethau a'r gyfres ategol o ddogfennau mewn perthynas â pholisi a/neu benderfyniad penodol. Er y byddai'n bosibl, mewn egwyddor, osod yr holl asesiadau effaith a gyhoeddir mewn un man, bydd angen ystyried ymhellach p'un a fyddai hyn yn helpu o ran hygyrchedd, dealltwriaeth a thryloywder.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd y Cynulliad hwn, yn comisiynu darn penodol o waith i ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag asesiadau effaith integredig strategol. Dylai ystyried materion fel cymhlethdod cymharol yr offeryn, sut y mae'r offeryn wedi mynd i'r afael â phwysoli hawliau ac effeithiau lluosog, a'r defnyddiau a wnaed o allbynnau'r offeryn (ond ni ddylid cyfyngu'r darn o waith i hyn).

Ymateb: Derbyn

Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb

Yn unol â'n hymrwymiad i wella'n barhaus sut rydym yn ystyried effaith penderfyniadau gwario a wneir drwy'r broses gyllidebu flynyddol, rydym yn cydnabod bod angen adolygu'r dull gweithredu sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb.

Ers inni gyhoeddi asesiad o effaith ar gydraddoldeb gyntaf ar gyfer Cyllideb 2011-12, wedi addasu ein dull gweithredu er mwyn datblygu Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb ers 2015-16. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod bellach yn anelu at gyflawni ein cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau gwario strategol o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith.

Ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer y gyllideb arfaethedig, rydym yn bwriadu profi dulliau gweithredu amgen sydd â'r nod o wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau gwario ac yn deall eu heffaith. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallai adnodd gwirio'r siwrnai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gefnogi'r gwaith hwn. Byddwn yn fwy na pharod i weithio gyda'r Pwyllgorau wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

Dros gyfnod hwy, byddwn yn ystyried sut y gallai darn mwy penodol o waith sy'n adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol helpu i wneud gwelliannau pellach. Byddai angen i'r gwaith hwn fod yn gyson â'r adolygiad y bwriedir ei gynnal yn 2019 o'r adnodd asesu effaith integredig a ddisgrifir isod.

Adnodd Asesu Effaith Integredig

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, drwy'r adnodd asesu effaith integredig y caiff yr asesiad o effaith polisi penodol ei lunio. Cafodd yr adnodd asesu effaith integredig ei ddatblygu i symleiddio asesiadau effaith presennol Llywodraeth

Cymru yn un fframwaith integredig a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Cafodd y broses o ddatblygu'r adnodd asesu effaith integredig ei llywio gan adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru *Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government*².

Un o themâu allweddol yr adroddiad oedd bod angen system gydlynol o asesu effaith yng nghyd-destun y ffaith ei fod yn rhan annatod o'r broses llunio polisïau. Nododd yr adroddiad hefyd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer cysoni ac integreiddio'r ffordd y caiff effaith ei hasesu. Mae'n bwysig nodi mai canllaw yw'r adnodd asesu effaith integredig, y bwriedir iddo helpu i ddatblygu polisi felly pan gaiff dewisiadau eu gwneud ynglŷn â sut i weithredu, caiff Gweinidogion Cymru eu hysbysu o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl.

